# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 6

CONTRACTAU SAFONOL CYFNOD PENODOL: DIWEDD Y CYFNOD PENODOL

### 184 Diwedd y cyfnod penodol

(1) Mae contract safonol cyfnod penodol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod y'i gwneir ar ei gyfer.

(2) Os yw deiliad y contract yn dal i feddiannu'r annedd ar ôl diwedd y cyfnod, mae'r landlord a deiliad y contract i'w trin fel pe baent wedi gwneud contract safonol cyfnodol newydd mewn perthynas â'r annedd.

(3) Mae gan y contract newydd—

- (a) dyddiad meddiannu sy'n dod yn union ar ôl diwedd y cyfnod penodol, a
- (b) cyfnodau rhentu sydd yr un fath â'r rheini yr oedd rhent yn daladwy ar eu cyfer ddiwethaf o dan y contract cyfnod penodol.

(4) Mae'r darpariaethau sylfaenol ac atodol sy'n gymwys i gontractau safonol cyfnodol wedi eu hymgorffori fel telerau'r contract newydd heb eu haddasu.

(5) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4), mae i'r contract newydd yr un telerau â'r contract cyfnod penodol yn union cyn iddo ddod i ben.

(6) Nid yw contract meddiannaeth newydd yn dod i fodolaeth fel y disgrifir yn is-adran (2) os yw'r landlord a deiliad y contract wedi gwneud contract meddiannaeth newydd mewn perthynas â'r un annedd (neu'r un annedd i raddau helaeth) sydd â dyddiad meddiannu yn union ar ôl i'r contract cyfnod penodol ddod i ben.

(7) Os, cyn neu ar ddyddiad meddiannu contract meddiannaeth newydd sy'n dod i fodolaeth fel y disgrifir yn is-adran (2) neu (6)—

(a) yw deiliad y contract yn ymrwymo i rwymedigaeth i gyflawni gweithred a fydd yn peri i'r contract newydd ddod i ben, neu

(b) yw deiliad y contract yn rhoi unrhyw hysbysiad neu ddogfen arall a fyddai, oni bai am yr is-adran hon, yn peri i'r contract newydd ddod i ben,

ni ellir gorfodi'r rhwymedigaeth neu (yn ôl y digwydd) nid oes unrhyw effaith i'r hysbysiad neu'r ddogfen.

(8) Nid yw'r gofyniad yn adran 39(1) (rhaid i landlord roi cyfeiriad cyswllt i ddeiliad contract ar ddechrau contract) yn gymwys mewn perthynas â chontract safonol cyfnodol sy'n codi o dan is-adran (2).

## 185 Caniatáu i ddatganiad ysgrifenedig ymdrin â chontract safonol cyfnodol sy'n codi o dan adran 184(2)

(1) Caiff datganiad ysgrifenedig o gontract safonol cyfnod penodol, o ran y contract safonol cyfnodol a allai godi o dan adran 184(2) ("y contract posibl"), nodi beth fyddai telerau'r contract hwnnw o dan adran 184(3) i (5) drwy—

(a) pennu telerau'r contract safonol cyfnod penodol na fyddant yn delerau'r contract posibl, a nodi'r telerau a fydd yn gymwys i'r contract posibl yn unig, neu

(b) nodi holl delerau'r contract posibl ar wahân.

(2) Pan fo datganiad ysgrifenedig o gontract safonol cyfnod penodol yn ymdrin â'r contract posibl yn unol ag is-adran (1)—

(a) nid yw'r datganiad ysgrifenedig yn anghywir (gweler adran 37) ond am ei fod yn ymdrin â'r contract posibl;

(b) mae'r landlord i'w drin fel pe bai wedi cydymffurfio â'r gofyniad yn adran 31(1) (darparu datganiad ysgrifenedig) mewn perthynas â'r contract posibl, ac

(c) ni chaniateir gorfodi telerau'r contract posibl yn erbyn deiliad y contract cyn dyddiad meddiannu'r contract hwnnw (ac, o ganlyniad, nid yw adran 42 yn gymwys).